

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	26 Mawrth 2019
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Uwch Swyddog Harbyrau

1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 a Mawrth 2019, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yn Harbwr Abermaw.

2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod

- 2.1 Fel mae'r tymor yn nesáu mae ffurflenni cais angorfeydd wedi eu hanfon, a dim ond nifer gyfyngedig sydd wedi eu hanfon yn ôl hyd yma. O'r ymholiadau yn swyddfa'r harbwr hyderir y bydd nifer y cychod ar yr angorfeydd yn yr harbwr am y tymor a ddaw yn cynyddu ar nifer y llynedd sef 72 o gychod.
- 2.2 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa aelodau'r Pwyllgor y dylid llenwi'r ffurflenni cais am angorfa a'u dychwelyd i Swyddfa Harbwr Abermaw cyn gynted â phosib, i ganiatau ar gyfer proses weinyddol effeithiol a dyrannu angorfeydd addas.

3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

- 3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Y nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu i fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol Harbwr Abermaw.

- 3.1.2 Rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan archwilwyr yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol.
- 3.1.3 Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd, derbyniodd y Gwasanaeth adroddiad oedd yn awgrymu gwelliannau yn dilyn yr archwiliad ac mae hwn wedi ei dosbarthu o'r blaen i'r Pwyllgor Ymgynghorol.

3.1.4 Fel dilyniant i'r ymweliad cychwynnol, ymwelodd y Capten Forkanul Quadar o Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau â'r gwasanaeth ar y 5ed a'r 6ed o Fawrth a daeth i Harbwr Abermaw gan roi cyflwyniad i Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Disgwylir adroddiad pellach gan Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau yn dilyn yr ymweliad.

4. **Materion Staffio**

4.1.1 Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod, daeth cyfnod cyflogaeth Cynorthwy-ydd Harbwr Abermaw (tymhorol) i ben ar 30 Medi 2018. Bydd swydd y Cymhorthwydd Harbwr Tymhorol am y tymor a ddaw yn cael ei hysbysebu yn fuan ac fe hyderir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ei swydd erbyn dechrau mis Mai.

4.1.2 Mae'r Gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gadarnhau fod dwy swydd Harbwrfeistr Cynorthwyol llawn-amser yn mynd i gael eu creu. Bydd un aelod ychwanegol o staff yn cael ei leoli yn Harbwr Porthmadog a'r llall yn Aberdyfi. Wedi iddynt gael ei penodi bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio ar draws yr holl harbyrau pan a phryd fo angen, gan gynorthwyo gyda'r gwaith morol. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn eu swyddi erbyn dechrau mis Mai.

5. **Materion Ariannol**

5.1 Mae crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd Chwefror 2019 yn atodol.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu'n rhaid ymrwyno adnoddau ariannol ar gyfer:-

- Cynnal a Chadw Cymorthyddion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw cwch patrolio'r harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau.
- Cynnal a chadw Ysgolion a Rheiliau'r Harbwr

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2019/20.** Mae'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn Harbwr Abermaw ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Chychod Personol am 2019/20 yn atodol.

6.0 **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Abermaw yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a weithredwyd ac a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 hyd Mawrth 2019, sy'n cynnwys materion cynnal a chadw a digwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod. Mae copi o'i adroddiad yn atodol.